SFJPLEN406W
Darparu cefnogaeth fforensig arbenigol i gefnogi ymgyrchoedd cudd

Trosolwg

Mae'r uned hon yn ymdrin â darparu gwyddoniaeth fforensig arbenigol i ymgyrchoedd cudd.

Mae'r mwyafrif o ymgyrchoedd cudd yn rhagweithiol, h.y. maen nhw'n ceisio sefydlu hunaniaeth unigolion a darganfod gwybodaeth er mwyn drysu gweithgareddau troseddol ac er mwyn atal troseddau. Mae'r amgylchiadau, y fframwaith cyfreithiol a'r strategaethau fforensig a ddefnyddir mewn ymgyrchoedd cudd, felly yn nodedig wahanol i'r rhai sy'n berthnasol i waith fforensig mewn lleoliadau troseddau adweithiol.

Mae'r uned hon ar gyfer y rheiny sy'n darparu cefnogaeth gwyddoniaeth fforensig arbenigol i ymgyrchoedd cudd ar lefel genedlaethol neu ryngwladol.

Cynnwys yr uned:

1 Darparu cefnogaeth fforensig arbenigol i gynllunio a monitro ymgyrchoedd cudd
2 Darparu cefnogaeth arbenigol i ddatblygu strategaethau fforensig ar gyfer ymgyrchoedd cudd
3 Darparu cefnogaeth fforensig arbenigol wrth gasglu tystiolaeth a data cudd
4 Cysylltiad rhwng ymgyrchoedd cudd a darparwyr gwasanaeth fforensig
5 Cysylltiad gydag ymchwilwyr lleoliad trosedd adweithiol yn dilyn casglu tystiolaeth data yn gudd

SFJPLEN406W
Darparu cefnogaeth fforensig arbenigol i gefnogi ymgyrchoedd cudd

Meini prawf perfformiad

Darparu cefnogaeth fforensig arbenigol i gynllunio a monitro ymgyrchoedd cudd

Rhaid i chi allu:

P1 sicrhau eich bod wedi'ch briffio'n llawn ar y **cylch gorchwyl** ar gyfer yr ymgyrch
P2 cytuno eich rôl a'ch cyfrifoldebau o fewn yr ymgyrch gyda'r Swyddog Arweiniol (SIO/LO), gan egluro unrhyw agweddau allai fod yn aneglur
P3 casglu ac asesu'r holl **ddeunydd** sydd ar gael yn rhwydd sy'n berthnasol i'ch rôl a'ch cyfrifoldebau o fewn yr ymgyrch
P4 sicrhau bod yr awdurdodiadau gofynnol mewn lle a'u bod wedi eu drafftio'n gywir i gwmpasu tasgau fforensig
P5 cymryd rhan mewn asesu a rheoli risgiau gweithredol a gofynion diogelwch drwy ddarparu cyngor ar wyddoniaeth fforensig arbenigol
P6 monitro effeithiolrwydd yr ymgyrch yn barhaol a darparu cyngor ar wyddoniaeth fforensig wedi'i ddiweddaru petai unrhyw newid mewn amgylchiadau

Darparu cefnogaeth arbenigol i ddatblygu strategaethau fforensig ar gyfer ymgyrchoedd cudd

Rhaid i chi allu:

P7 sicrhau bod yr holl **bobl berthnasol** yn cymryd rhan mewn cytuno strategaeth fforensig
P8 awgrymu strategaethau addas i adnabod neu gadarnhau hunaniaeth unigolion, gan gynnwys defnyddio dangosyddion ffordd o fyw a dynodwr biometrig
P9 sefydlu a blaenoriaethu gweithrediadau a chyfrifoldebau angenrheidiol i gyflawni'r amcanion fforensig o fewn amserlen gytunedig
P10 adnabod yr **adnoddau** a'rr gyllideb sydd ei hangen i gyflawni'r gweithrediadau, gan gytuno'r rhain gyda'r **bobl berthnasol**
P11 sicrhau bod y gweithrediadau i'w cyflawni wrth adfer samplau fforensig yn gwneud y mwyaf o atafaeliad tystiolaeth botensial
P12 cyfathrebu'r strategaeth fforensig yn eglur, yn gywir ac yn brydlon i'r holl **bobl berthnasol**, gan gynnal trywyddion cyfathrebu'n glir
P13 penderfynu ar y blaenoriaethau ymchwilio fforensig ar gyfer pob sampl i gael eu casglu, gan flaenoriaethu cyflwyniad i'r labordy
P14 adnabod a threfnu dulliau ar gyfer monitro a gwerthusor strategaeth fforensig sydd wedi eu dylunio i ystyried ffeithiau sy'n dod allan o'r ymgyrch

Darparu cefnogaeth fforensig arbenigol wrth gasglu tystiolaeth a data cudd

Rhaid i chi allu:

P15 briffio'r tîm gweithredol ar y ffynonellau tebygol o dystiolaeth ffordd o fyw unigolion

P15.1 cyfleoedd i gasglu tystiolaeth gwyddoniaeth fforensig
P15.2 gyfleoedd ar gyfer casglu **data** ar unigolion a/neu eu partneriaid
P15.3 sut i gynnal cywirdeb a diogelwch tystiolaeth
P15.4 sut i sicrhau nad yw'r ymgyrch yn cael ei gyfaddawdu
P15.5 sut i lanhau eiddo yn dilyn ymchwiliad cudd

P16 darparu **cefnogaeth wyddonol fforensig arbenigol** i'r tîm gweithredol wrth gasglu tystiolaeth a data, gan gynnwys cefnogaeth barhaol i gefnogi risgiau lliniarol

P17 cysylltu gydag asiantaethau eraill sy'n gallu cefnogi'r ymgyrch, gan gynnwys partneriaid rhyngwladol, ble bo angen

P18 sicrhau bod eitemau sy'n cael eu cludo'n rhyngwladol gan unigolion neu eu partneriaid yn cael eu marcio'n gudd a/neu eu hamnewid, fel bo angen

P19 sicrhau bod gweithrediadau'r tîm gweithredol wrth gasglu tystiolaeth a data yn unol â chwmpas yr awdurdodiadau

P20 derbyn eitemau a samplau fforensig a sicrhau bod y rhain yn cael eu pacio, eu labelu a'u storio'n gywir er mwyn cynnal eu cywirdeb a'u diogelwch

Cysylltiad rhwng ymgyrchoedd cudd a darparwyr gwasanaeth fforensig

Rhaid i chi allu

P21 cynghori'r tîm gweithredu cudd ar brofion fforensig i gael eu cynnal ar eitemau a gasglwyd

P22 penderfynu ar ba eitemau dylid eu cyflwyno ar gyfer pa brofion fforensig, gan ystyried polisïau, blaenoriaethau ac adnoddau sefydliadol

P23 cynghori'r tîm gweithredu cudd ar gwblhau a chyflwyno ffurflenni profion fforensig

P24 cytuno gyda darparwyr gwasanaeth fforensig ar y profion i'w cynnal, anghenion diogelwch yr eitemau, amserlen a chostau

P25 monitro perfformiad y darparwyr gwasanaeth fforensig i sicrhau eu bod yn darparu canlyniadau profion o ansawdd uchel ac ar amser

P26 dehongli canlyniadau profion fforensig a chynghori ar unrhyw brofion eraill fel bo

P27 ystyried goblygiadau canlyniadau'r profion fforensig ac awgrymu newidiadau i'r strategaeth fforensig, lle bo'n addas

Cysylltiad gydag ymchwilwyr lleoliad trosedd adweithiol yn dilyn casglu tystiolaeth data yn gudd

Rhaid i chi allu

P28 adnabod o'r ymgyrch gudd pa dystiolaeth sydd angen ei gasglu drwy ymchwiliad lleoliad trosedd adweithiol

P29 darparu brîff digonol i **ymchwilwyr lleoliad trosedd adweithiol** i'w galluogi i gasglu'r dystiolaeth sydd ei angen yn effeithiol ac yn effeithlon, heb gyfaddawdu'r ymgyrch gudd

P30 cysylltu ag **ymchwilwyr lleoliad trosedd adweithiol** drwy gydol yr

SFJPLEN406W

Darparu cefnogaeth fforensig arbenigol i gefnogi ymgyrchoedd cudd

	ymchwiliad, a'u cynghori ar berthnasedd neu amherthnasedd y deunydd maent yn ei nodi
P31	sicrhau bod ymchwilwyr lleoliad trosedd adweithiol yn casglu'r holl dystiolaeth sydd ei angen

SFJPLEN406W
Darparu cefnogaeth fforensig arbenigol i gefnogi ymgyrchoedd cudd

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Anghenion cyfreithiol a chyfundrefnol

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 deddfwriaeth gyfredol, berthnasol, polisïau, gweithdrefnau, codau ymarfer a chanllawiau yn berthnasol i gynnal ymgyrchoedd cudd
K2 deddfwriaeth gyfredol, berthnasol ac anghenion sefydliadol sy'n berthnasol i hil, amrywiaeth a hawliau dynol
K3 deddfwriaeth gyfredol, berthnasol ac anghenion sefydliadol sy'n berthnasol i iechyd a diogelwch a gwarchodaeth

Ymgyrchoedd cudd

Mae angen i chi wybod a deall:

K4 cylch gorchwyl yr ymgyrch
K5 eich rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun yn yr ymgyrch
K6 y cyfyngiadau penodol mae natur gudd yr ymgyrch yn ei osod ar gasglu samplau fforensig
K7 yr awdurdodiadau sydd eu hangen ar gyfer yr ymgyrch, a sut i sicrhau eu bod yn cael eu drafftio'n gywir i gwmpasu'r tasgau fforensig a bod y tîm gweithredol yn cydymffurfio â hwy bob amser
K8 sut i gymryd rhan yn effeithiol wrth asesu a rheoli risg gweithredol ac anghenion diogelwch, drwy ddarparu cyngor gwyddoniaeth fforensig arbenigol
K9 sut i gyflawni marcio cudd a chyfnewid eitemau

Darparu cefnogaeth fforensig arbenigol

Mae angen i chi wybod a deall:

K10 arbenigedd yn y meysydd gwyddoniaeth fforensig mae'n debygol bydd eu hangen i gefnogi'r ymgyrch yn effeithiol
K11 strategaethau ar gyfer adnabod neu gadarnhau hunaniaeth unigolion, gan gynnwys defnyddio dangosyddion ffordd o fyw a dangosyddion biometrig
K12 sut i drosi strategaethau fforensig yn weithrediadau a chyfrifoldebau wedi'u blaenoriaethu i gyflawni amcanion o fewn terfynau amser cytûn
K13 yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni strategaeth fforensig
K14 sut i gyfathrebu'r strategaeth fforensig yn eglur, yn gywir ac yn brydlon i'r ystod o bobl berthnasol
K15 sut i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer pob sampl a blaenoriaethu'r cyflwyniadau i'r labordy
K16 pwysigrwydd monitro a gwerthuso strategaeth fforensig a'i addasu'n ddibynnol ar ffeithiau sy'n dod i'r amlwg
K17 sut i friffio'r tîm sy'n gweithio ar gasglu samplau fforensig yn ystod ymgyrch gudd
K18 asiantaethau eraill, gan gynnwys partneriaid rhyngwladol, allai gefnogi'r

ymgyrch

K19 sut i becynnu a labelu eitemau a samplau fforensig i gynnal eu cywirdeb a'u diogelwch

K20 yr ystod o brofion fforensig ellir eu cynnal a sut i benderfynu pa brofion sy'n addas o dan amgylchiadau gwahanol

K21 yr ystod o ddarparwyr gwasanaethau fforensig sydd ar gael a'u costau

K22 y ffurfiau o brofion fforensig a sut mae'n rhaid eu cyflawni

K23 pwysigrwydd monitro perfformiad darparwyr gwasanaeth fforensig ac ansawdd eu profion, a sut i wneud hyn

K24 sut i ddehongli profion fforensig a'r goblygiadau ar gyfer strategaeth fforensig

K25 sut gellir defnyddio ymchwilwyr safle trosedd adweithiol i gasglu tystiolaeth heb gyfaddawdu ymgyrch gudd

SFJPLEN406W
Darparu cefnogaeth fforensig arbenigol i gefnogi ymgyrchoedd cudd

Gwybodaeth ychwanegol

Cwmpas/Ystod

Darparu cefnogaeth fforensig arbenigol i gynllunio a monitro ymgyrchoedd cudd

1 **amodau gorchwyl**
- 1.1 gosod i gyd-fynd ag amcanion a blaenoriaethau strategol
- 1.2 amcanion a chanlyniadau
- 1.3 cwmpas
- 1.4 amseriad
- 1.5 adnoddau
- 1.6 cyfrifoldebau
- 1.7 cyfyngiadau

2 **defnydd**
- 2.1 gwybodaeth
- 2.2 cudd-wybodaeth
- 2.3 tystiolaeth
- 2.4 defnydd heb ei ddefnyddio
- 2.5 defnydd nad yw'n berthnasol

Darparu cefnogaeth arbenigol i ddatblygu strategaethau fforensig ar gyfer ymgyrchoedd cudd

3 personau perthnasol
- 3.1 Swyddog Arweiniol (Swyddog Arweiniol/Swyddog Archwilio Uwch)
- 3.2 arbenigwyr gwyddoniaeth fforensig
- 3.3 cynghorwyr risg gweithrediadol
- 3.4 arbenigwyr gweithrediadau cudd
- 3.5 arbenigwyr technegol
- 3.6 arbenigwyr prynu
- 3.7 dalwyr y gyllideb

4 adnoddau
- 4.1 swyddogion chwilio cudd
- 4.2 arbenigwyr gwyddoniaeth fforensig
- 4.3 arbenigwyr technegol
- 4.4 offer
- 4.5 nwyddau traul

Darparu cefnogaeth fforensig arbenigol wrth gasglu tystiolaeth a data cudd

5 cyfleoedd i gasglu tystiolaeth gwyddoniaeth fforensig

5.1 casglu sbwriel sydd wedi'i adael
5.2 archwiliad cudd o'r sbwriel
5.3 archwiliad cudd o eiddo
5.4 casglu eitemau sydd wedi'u cyffwrdd gan y person dan sylw a/neu eu cymdeithion
5.5 defnyddio marcwyr cudd

6 data
6.1 data personol
6.2 data biometrig
6.3 data ffôn
6.4 data cyfrifiadurol

7 cefnogaeth gwyddoniaeth fforensig arbenigol
7.1 yn bersonol
7.2 o bell

Cysylltiad rhwng ymgyrchoedd cudd a darparwyr gwasanaeth fforensig

8 archwilwyr lleoliad y drosedd
8.1 o fewn eich asiantaeth eich hun
8.2 o asiantaethau eraill

9 defnydd
9.1 gwybodaeth
9.2 cudd-wybodaeth
9.3 tystiolaeth
9.4 defnydd heb ei ddefnyddio
9.5 defnydd nad yw'n berthnasol

Cysylltiad gydag ymchwilwyr lleoliad trosedd adweithiol yn dilyn casglu tystiolaeth data yn gudd

10 archwilwyr lleoliad y drosedd
10.1 o fewn eich asiantaeth eich hun
10.2 o asiantaethau eraill

11 defnydd
11.1 gwybodaeth
11.2 cudd-wybodaeth
11.3 tystiolaeth
11.4 defnydd heb ei ddefnyddio
11.5 defnydd nad yw'n berthnasol

SFJPLEN406W
Darparu cefnogaeth fforensig arbenigol i gefnogi ymgyrchoedd cudd

Datblygwyd gan	Skills for Justice
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Ebrill 2009
Dyddiad adolygu a awgrymir	
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Justice
RCU gwreiddiol	O27NCN406
Galwedigaethau perthnasol	Gwasanaethau Cyhoeddus; Gweithwyr Proffesiynol Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Eraill
Cyfres/Set	Plismona a Gorfodi'r Gyfraith
Geiriau Allweddol	